PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 21 MEHEFIN 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Keith Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Gordon, Ahmed, Asghar Ali, Congreve, Driscoll, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard a/ac Murphy |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU

Y Cynghorydd Christopher Lay

2 : PENODI CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD

Nododd y Pwyllgor bod y Cynghorydd Keith Jones wedi'i benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor hwn yn y Cyfarfod Cyngor Blynyddol ar 25 Mai 2017 a bod y Cynghorydd Iona Gordon wedi'i phenodi'n Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor hwn.

3 : PENODI'R PWYLLGOR A'R CYLCH GORCHWYL

Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 25 Mai 2017, penodwyd yr aelodaeth a'r Cylch Gorchwyl canlynol i'r Pwyllgor hwn:

Aelodaeth:

Y Cynghorwyr: Ahmed, Asghar Ali, Congreve, Driscoll, Gordon, Hudson, Jacobsen, Keith Jones, Jones-Pritchard, Lay, Murphy, gan gynnwys penodi'r Cynghorydd Keith Parry yn unol â dymuniadau Grŵp Plaid Cymru.

Cylch Gorchwyl:

Y swyddogaethau hynny a restrir yn Adran A, Atodlen 1 Rheoliadau Trefniadau Gweithredol yr Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 ac unrhyw ddiwygiadau o ran hynny ac unrhyw faterion ategol hefyd fel a ddiffinnir yn Rheoliad 4(2) i (6) y Rheoliadau.

Y swyddogaethau hynny a restrir ym mharagraffau 1 - 12, Atodlen 1 Rheoliadau Trefniadau Gweithredol yr Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 ac unrhyw ddiwygiadau o ran hynny ac unrhyw faterion ategol hefyd fel a ddiffinnir yn Rheoliad 4(2) i (6) y Rheoliadau.

4 : COFNODION

Llofnodwyd Cofnodion 12 Ebrill 2017 fel cofnod cywir.

5 : DATGAN BUDDIANNAU

| CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Jones-Pritchard | 17/00620/MNR | Pensaer Y Cais |

6 : DEISEBAU

Cais 16/02752/MJR, Lozelles, Church Road, Llys-faen
Cais 17/00171/MJR, National Westminster Bank, 238 Pantbach Road

7 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGIAD

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990:

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo ac yn ôl yr argymhellion a nodir yn adroddiad Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990).

# CEISIADAU A RODDIR

16/03050/MNR – PEN-Y-LAN

40 LADY MARY ROAD
Dymchwel arfaethedig ar yr annedd presennol.

16/03066/MJR – GRANGETOWN

ST PAUL'S CHURCH, LLANMAES STREET
Newid defnydd ar ran o'r adeilad eglwys presennol, o le o addoliad i fflatiau preswyl (cedwir man addoli llai o fewn yr adeilad), adeiladu 2 dŷ pâr 2 ystafell wely newydd, adeiladu estyniad newydd rhwng festri presennol yr eglwys a'r neuadd plwyf i greu mynedfa newydd i'r eglwys, adeiladu storfa feiciau a biniau newydd, addasu'r ffens ffiniol presennol i greu mynediad i'r tai newydd a mynedfa newydd yr eglwys, diwygiadau i'r tirlunio presennol i hwyluso creu llwybrau cylchredeg newydd, gofod mwynderau caeedig wedi ei dirlunio i'w ddefnyddio gan breswylwyr y fflatiau a thramwyfa cwrt blaen i fynedfa newydd yr eglwys, cais Caniatâd Adeilad Rhestredig i addasu corff ac eiliau presennol yr eglwys yn 12 fflat newydd, newid yr 8 ffenestr presennol yn yr eiliau a gosod 8 agoriad ffenestr newydd i wasanaethu'r fflatiau newydd, addasu cangell bresennol yr eglwys i greu gofod addoli llawr gwastad newydd.

Yn amodol ar ddiwygio Amod 2 a fydd yn nodi:

'Mae'r caniatâd yn ymwneud â'r cynlluniau cymeradwy canlynol:

| Darluniad Rhif | Teitl |
|---|---|
| L(90)001a | Cynllun Lleoliad Safle |
| L(90)100B | Cynllun Safle |
| L(90)150B | Gosodiad Safle |
| L(00)100A | Cynllun Fflat Llawr Gwaelod |
| L(00)101A | Cynllun Fflat Llawr Gwaelod |
| L(00)102A | Fflatiau Ail Lawr |
| L(00)103A | Cynllun To |

| | |
|---|---|
| L(00)200A | Adrannau A-A & B-B |
| L(00)201A | Adran C-C |
| L(00)202A | Adran D-D |
| L(00)203A | Adran E-E |
| L(00)204A | Adran F-F & G-G |
| L(00)300A | Gwedd Ogleddol |
| L(00)301A | Gwedd Orllewinol |
| L(00)302A | Gwedd Ddeheuol |
| L(00)303A | Gwedd Ddwyreiniol |
| L(00)150 | Cangell a Chynllun Mynedfa Newydd |
| L(00)151 | Gweddlun Fewnol y Gangell |
| L(00)501B | Adeilad Cysylltiol – Cynlluniau Llawr a Tho |
| L(00)502B | Adeilad Cysylltiol – Gweddluniau a Thrawsluniau |
| L(00)900B | Cynlluniau Storfa Feiciau a Biniau, Gweddluniau a Thrawsluniau |
| L(00)700 | Cynlluniau Llawr Cyntaf y Tai |
| L(00)701A | Cynlluniau Llawr Cyntaf y Tai |
| L(00)702 | Cynlluniau Ail Lawr y Tai |
| L(00)720 | Trawslun y Tai |
| L(00)730A | Trawslun y Tai |
| <u>Dymchwel</u> | |
| L(00)050 | Cynllun Dymchwel |
| L(00)051 | Cynllun Dymchwel 1 |
| L(00)052 | Cynllun Dymchwel 2 |
| L(00)053 | Cynllun Dymchwel y Safle |

17/00383/MJR – BUTETOWN

TIR AR CARGO ROAD, BAE CAERDYDD
Cyfleuster addysg a hyfforddiant arfaethedig HMS Cambria (Defnyddier Dosbarth Sui Generis) i'w ddefnyddio gan Uned Wrth Gefn y Llynges Frenhinol, gan gynnwys modd mynediad, parcio, gwaith tirlunio,triniaeth i'r ffin ac ardal ymarfer awyr agored, yn dilyn dymchwel yr adeiladau presennol.

Yn amodol ar ychwanegu Amod a fydd yn nodi:

'Ni chaiff unrhyw ddatblygiad a gymeradwyir gan y cais hwn ddigwydd hyd nes bod strategaeth adfer/adroddiad gwirio i fynd i'r afael â'r peryglon ynghlwm â halogiad posib y safle, yn sgil presenoldeb y tanciau tanwydd, wedi ei gyflwyno i a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Caiff y gwaith a nodir yn y strategaeth ei roi ar waith yn unol â fel y'i cymeradwywyd.

Yn amodol ar Amod ychwanegol a fydd yn nodi:

'Dim clirio coed na llwyni i ddigwydd rhwng 1 Chwefror a 15 Awst oni bai y cymeradwywyd hynny yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Caiff y caniatâd hwn ei roi os gellir dangos nad oes yna adar yn nythu yn y tyfiant yn union (48 awr) cyn i'r gwaith ddechrau.

17/00620/MNR – YR EGLWYS NEWYDD/TONGWYNLAIS

TIR AR IRON BRIDGE ROAD.
Annedd newydd ar dir ar Iron Bridge Road.

# CEISIADAU A GANIATEIR WRTH WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO YN UNOL AG ADRAN 106 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990:

16/02916/MJR – BUTETOWN

TIR I'R DE O GANOLFAN HAMADRYAD, HAMADRYAD ROAD
Adeiladu ysgol gynradd newydd 2 lawr gan gynnwys ystafelloedd newid â thanc chwistrellu a thŷ pwmpio, ardal parcio/gwasanaethu, tirlunio, cyfleusterau hamdden a goleuadau allanol.

16/02994/MJR – GRANGETOWN

162 -168 PENARTH ROAD
Ailddatblygu i ddarparu 19 annedd preswyl, un uned fasnachol a gwaith cysylltiedig.

16/03049/MNR – PEN-Y-LAN

40 LADY MARY ROAD
Dymchwel yr annedd bresennol ac adeiladu datblygiad preswyl 4 llawr yn cynnwys 4 fflat 2 ystafell wely a fflat ddeulawr 2 ystafell wely gyda chyfleuster parcio ar y safle a chyfleusterau storio beiciau a gwastraff.

16/03065/MJR – GRANGETOWN

ST PAUL'S CHURCH, LLANMAES ROAD
Newid defnydd ar ran o'r adeilad eglwys presennol, o le o addoliad i fflatiau preswyl (cedwir man addoli llai o fewn yr adeilad), adeiladu 2 dŷ pâr 2 ystafell wely newydd, adeiladu estyniad newydd rhwng festri presennol yr eglwys a'r neuadd plwyf i greu mynedfa newydd i'r eglwys, adeiladu storfa feiciau a biniau newydd, addasu'r ffens ffiniol presennol i greu mynediad i'r tai newydd a mynedfa newydd yr eglwys, diwygiadau i'r tirlunio presennol i hwyluso creu llwybrau cylchredeg newydd, gofod mwynderau caeedig wedi ei dirlunio i'w ddefnyddio gan breswylwyr y fflatiau a thramwyfa cwrt blaen i fynedfa newydd yr eglwys, cais Caniatâd Adeilad Rhestredig i addasu corff ac eiliau presennol yr eglwys yn 12 fflat newydd, newid yr 8 ffenestr presennol yn yr eiliau a gosod 8 agoriad ffenestr newydd i wasanaethu'r fflatiau newydd, addasu cangell bresennol yr eglwys i greu gofod addoli llawr gwastad newydd.

Yn amodol ar ddiwygio Amod 2 fel a ganlyn:

| Darluniad Rhif | Teitl |
|---|---|
| L(90)001a | Cynllun Lleoliad Safle |
| L(90)100B | Cynllun Safle |
| L(90)150B | Gosodiad Safle |

| | |
|---|---|
| L(00)100A | Cynllun Fflatiau Llawr Gwaelod |
| L(00)101A | Cynllun Fflat Llawr Cyntaf |
| L(00)102A | Fflatiau Ail Lawr |
| L(00)103A | Cynllun To |
| L(00)200A | Adrannau A-A & B-B |
| L(00)201A | Adran C-C |
| L(00)202A | Adran D-D |
| L(00)203A | Adran E-E |
| L(00)204A | Adran F-F & G-G |
| L(00)300A | Gwedd Ogleddol |
| L(00)301A | Gwedd Orllewinol |
| L(00)302A | Gwedd Ddeheuol |
| L(00)303A | Gwedd Ddwyreiniol |
| L(00)150 | Cangell a Chynllun Mynedfa Newydd |
| L(00)151 | Gweddlun Fewnol y Gangell |
| L(00)501B | Adeilad Cysylltiol – Cynlluniau Llawr a Tho |
| L(00)520B | Adeilad Cysylltiol – Gweddluniau a Thrawsluniau |
| L(00)900B | Cynlluniau Storfa Feiciau a Biniau, Trawsluniau a Gweddluniau |
| L(00)700 | Cynlluniau Llawr Gwaelod y Tai |
| L(00)701A | Cynlluniau Llawr Cyntaf y Tai |
| L(00)702 | Cynlluniau Ail Lawr y Tai |
| L(00)720 | Trawslun y Tai |
| L(00)730A | Gweddluniau'r Tai |

17/00159/MJR – BUTETOWN

TIR AR DUMBALLS ROAD
Datblygiad defnydd cymysg arfaethedig yn cynnwys 109 o fflatiau 1 a 2 ystafell wely (defnydd dosbarth C3), uned fasnachol hyblyg llawr gwaelod (defnydd A1/A2/A3/B1/D1) gyda mynediad, gwaith draenio, parcio, storfa feiciau, storfa wastraff, is-orsaf drydan a gwaith cysylltiedig.

17/00171/MJR – ADAMSDOWN

THE CITADEL, PEARL STREET/SPLOTT ROAD
Adeiladu datblygiad preswyl o 17 o fflatiau i ystafell wely a a fflat 2 ystafell wely, parcio, cyfleusterau beicio, gwastraff ac amwynder.

# CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

16/02752/MJR – LLYS-FAEN

LOZELLES, CHURCH ROAD
Datblygiad preswyl arfaethedig yn cynnwys 2 dŷ a 11 fflat hunangynhaliol gyda ffordd fynediad a chyfleusterau parcio, storio beiciau, gwastraff ac amwynder newydd.

RHESWM: Er mwyn i ymweliad safle â'r lleoliad hwn gael ei gynnal.

# CEISIADAU WEDI'U GWRTHOD

17/00208/DCO – RHIWBEINA

NATIONAL WESTMINSTER BANK, 238 PANTBACH ROAD
Estyniad a gwaith arfaethedig i roi 1 uned fasnachol i fod yn siop goffi. 1 uned fasnachol i fod yn siop torri gwallt. 3 fflat 3 ystafell wely.

8 : CEISIADAU A BENDERFYNWYD GAN BWERAU A DDIRPRWYIR

Mai 2017